# Ambu aScope4 Broncho i'w ddefnyddio mewn llwybrau anadlu lle ceir problemau'n annisgwyl

Gorffennaf 2013

Mehefin 2019

Mae NICE wedi asesu Ambu aScope4 Broncho er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynnyrch hwn.

Mewndiwbio yw'r broses o osod tiwb plastig hyblyg i lawr y bibell wynt. Gwneir hyn yn aml pan fydd gan bobl anafiadau difrifol, neu os ydynt o dan anesthetig cyffredinol, er mwyn gwneud yn siŵr y gallant barhau i anadlu. Os yw'r broses fewndiwbio yn anodd, gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddefnyddio camera bach ar ddiwedd tiwb hyblyg tenau (endosgôp) er mwyn helpu gyda'r driniaeth. Fel arfer, gellir defnyddio endosgôp sawl gwaith a'i ddiheintio rhwng pob defnydd. Endosgôp tafladwy (a ddefnyddir unwaith) yw Ambu aScope4 Broncho. Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio Ambu aScope4 Broncho os nad oes gan uned ysbyty fynediad i endosgôp aml-ddefnydd neu os nad oes un ar gael (er enghraifft, am ei fod yn cael ei ddiheintio). Gellir ei ddefnyddio hefyd er mwyn helpu i osod tiwb traceostomi newydd os yw'r tiwb a ddefnyddiwyd ar gyfer y traceostomi wedi symud allan o'i le. Traceostomi yw lle y caiff toriad ei wneud yn y gwddf er mwyn creu llwybr anadlu uniongyrchol.

Efallai y bydd timau ysbytai am ddefnyddio Ambu aScope4 Broncho am y gall wella lefelau diogelwch mewn unedau ysbytai lle nad oes endosgopau aml-ddefnydd, neu lle nad oes un ar gael. Mae hefyd yn debygol o arbed arian yn y sefyllfaoedd hyn.

ISBN: 978-1-4731-7593-8



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.